IOPC

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct



# uncynllun

## Cynllun busnes 2019/20

# Cynnwys

**Rhagair a chyflwyniad**

- Rhagair y Cyfarwyddwr Cyffredinol 4
- Cyflwyniad 5

**Ein gwaith**

> Blaenoriaeth: gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu 6

> Blaenoriaeth: gwella plismona trwy ddynodi a rhannu gwersi a ddysgwyd trwy ein gwaith 12

> Blaenoriaeth: gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu 16

> Blaenoriaeth: bod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol 22

**Cyllid a risgiau**

- Ein cyllid 26
- Ein risgiau 27


POLICE

# Rhagair a chyflwyniad

## Rhagair y Cyfarwyddwr Cyffredinol



**Rwyf yn falch o gael rhannu ein Cynllun Busnes ar gyfer 2019/20 gyda chi. Mae'r Cynllun hwn yn nodi beth yr ydym yn bwriadu ei gyflawni a'r effaith yr ydym yn gobeithio ei gael yn y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu ein Strategaeth dair blynedd uchelgeisiol.**

Eleni gwelir y Diwrnod Stephen Lawrence cyntaf yn cael ei nodi – diwrnod cenedlaethol o gofio, dysgu a diwrnod cymunedol. Mae amseriad y digwyddiad hwn yn fodd grymus o gofio pam ein bod yn bodoli a'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni.

Mae gan yr IOPC rôl allweddol i'w chwarae wrth hyrwyddo hyder yn yr heddlu, trwy ddal lluoedd heddlu i gyfrif pan fydd yn briodol ac, yn bwysig, sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu. Dyna yw'n cenhadaeth, ond ni allwn ei chyflawni ar ein pennau ein hunain. Mae ein Cynllun yn cydnabod hynny.

Mae i'r gwaith yr ydym yn bwriadu ei gyflawni dros y flwyddyn nesaf bwyslais penodol ar ddysgu a chymuned – ond, yn bwysicach na hynny, ar weithio gyda'n rhanddeiliaid, staff a'r cyhoedd i gefnogi ein gwaith yn y meysydd yma. Mae gweithio yn nes at gymunedau a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddysgu o'r gorffennol yn allweddol i ni gael effaith bositif ym mhob cornel o Gymru a Lloegr a chreu newid gwirioneddol ac ystyrlon.

Ar ôl darllen y Cynllun hwn, rwy'n gobeithio y byddwch yn cytuno y bydd hon yn flwyddyn gyffrous i ni. Edrychaf ymlaen at gael rhoi adroddiad yn ôl i chi ar y cynnydd yr ydym wedi ei wneud, ac ar yr effaith yr ydym yn ei gael.



**Michael Lockwood**
Cyfarwyddwr Cyffredinol

# Cyflwyniad

Mae ein Cynllun Strategol 2018-22 yn nodi ein cenhadaeth a'n blaenoriaethau. Ein cenhadaeth yw gwella hyder y cyhoedd mewn plismona trwy sicrhau bod yr heddlu yn atebol am eu gweithredoedd a bod gwersi yn cael eu dysgu. Mae'r Cynllun Busnes hwn yn nodi'r gwaith yr ydym yn bwriadu ei wneud yn 2019/20 tuag at gyflawni'r nod hwnnw. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o brosiectau a chynlluniau newydd yn ogystal â chyflawni ein swyddogaethau statudol[1].

## Bydd ein holl waith yn 2019/20 yn cyfrannu at ein pedair blaenoriaeth. Sef:

- gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu.
- gwella plismona trwy ddynodi a rhannu gwersi a ddysgwyd trwy ein gwaith.
- gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu.
- bod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol.

Er mwyn asesu sut yr ydym yn perfformio, rydym wedi datblygu dulliau mesur perfformiad ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau. Byddwn hefyd yn monitro ystod o wybodaeth arall, fel canfyddiad rhanddeiliaid o'n gwaith a deilliannau apeliadau yn erbyn y modd y mae'r heddlu yn ymdrin â chwynion gan y cyhoedd. Er nad ydym wedi gosod targedau ar gyfer y dulliau mesur yma, byddant yn sail i'n gwaith a'r camau a gymerir i gyflawni ein huchelgais.

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r ffordd y byddwn yn asesu ein llwyddiant, gan adeiladu ar y camau yn y cynllun hwn, i sicrhau ein bod yn gallu olrhain a rhoi adroddiad am effaith ein gwaith. Byddwn yn rhoi adroddiad am berfformiad i'n Bwrdd Unedol, sydd ynghyd â'n Pwyllgorau Risg ac Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth yn rhoi cyfeiriad ac yn herio'r ffordd yr ydym yn gweithio.

Byddwn yn parhau i gynhyrchu adroddiadau perfformiad misol a'u cyhoeddi ar ein gwefan a byddwn hefyd yn rhoi sicrwydd i'r Swyddfa Gartref ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol.

1 Nodir swyddogaethau statudol yr IOPC yn adran 10(c) Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.

# BLAENORIAETH



## Gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu

### YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD

Byddwn yn gweithio i wella pob rhan o'r system gwynion – ein gwaith ni ein hunain a'r hyn sy'n cael ei gyflawni gan eraill.

### YR HYN YR YDYM YN GOBEITHIO EI GYFLAWNI

System gwynion yr heddlu yn darparu deilliannau diduedd, teg ac ar sail tystiolaeth yn brydlon.

# Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan fydd

- Yr amser a gymerir i ymateb i gwynion, cwblhau ymchwiliadau ac apeliadau yn cael ei leihau ar draws y system.

- Yr amser a gymerir i gwblhau'r holl brosesau cysylltiedig (er enghraifft prosesau disgyblu) yn byrhau, yn arbennig yn dilyn marwolaethau ac anafiadau difrifol.

- Cwynion gan y cyhoedd yn cael eu datrys y tro cyntaf gan arwain at lai o apeliadau.

- Cwynion a digwyddiadau difrifol yn cael eu cofnodi a'u trin yn gyson ar draws yr holl luoedd heddlu.

- Y rhai sy'n ymwneud â chwynion, ymchwiliadau ac apeliadau (defnyddwyr gwasanaeth) yn fodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'u hachos.

# YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD YN 2019/20

## Gwaith gweithredol

- Ymchwilio yn annibynnol i'r digwyddiadau mwyaf difrifol y mae'r heddlu yn ymwneud â nhw, gan gynnwys y rhai pan all Erthygl 2 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol[2] fod yn weithredol.
- Cynnal ymchwiliadau sy'n cynnwys meysydd sy'n peri pryder i'r cyhoedd a'r heddlu. Eleni byddwn yn cynnwys y themâu canlynol yn ein meini prawf dewis achosion: cam-drin domestig, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, cam-ddefnyddio awdurdod er budd rhywiol neu ariannol, gwahaniaethu, iechyd meddwl a marwolaethau a fu bron â digwydd yn y ddalfa.
- Rhoi adnoddau i sicrhau bod achosion hanesyddol yn cael eu cau cyn gynted â phosibl, gan weithio gyda phartneriaid pan na allwn wneud hynny ar ein pennau ein hunain.
- Parhau i gyflawni ymchwiliadau o bwysigrwydd cenedlaethol, gan gynnwys ein hymchwiliad i weithrediadau'r heddlu yn dilyn trychineb Hillsborough.
- Byddwn yn sicrhau bod gan bob ymchwiliad y gefnogaeth arbenigol y mae arno ei angen gan gynnwys arbenigedd ym meysydd atal llygredd, cudd-wybodaeth a chyswllt â goroeswyr.
- Adolygu tua 4,000 o achosion a atgyfeiriwyd atom ni gan luoedd heddlu a phennu sut y dylid ymchwilio i'r rhain.
- Ystyried tua 3,500 apêl gan aelodau o'r cyhoedd sy'n anfodlon ar y ffordd y mae'r heddlu wedi trin eu cwyn.



- Adolygu sut y mae'r heddlu wedi ymchwilio i tua 1,200 o ddigwyddiadau yn ymwneud â marwolaeth neu anaf difrifol i ystyried a yw'r canfyddiadau a'r camau y bwriedir eu cymryd yn addas.

## Gwelliant gweithredol

- Ail-ddylunio ein prosesau i gyflawni ymchwiliadau ac apeliadau, gan ganolbwyntio ar leihau oedi a sicrhau ansawdd a chysondeb wrth lunio penderfyniadau.
- Ymgorffori adborth o'n gwaith gyda rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth i ail-ddylunio ein prosesau gweithredol, i sicrhau bod y ffordd yr ydym yn cyflawni ein gwaith yn bodloni eu hanghenion yn well.

2 Mae Erthygl 2 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi y bydd bywyd pawb yn cael ei ddiogelu gan y gyfraith. Mae hyn yn cynnwys gwaharddiad ar y wladwriaeth yn cymryd bywyd (yn amodol ar eithriadau cyfyngedig iawn) ac, mewn rhai amgylchiadau, dyletswydd bositif ar y wladwriaeth i ddiogelu bywyd. Weithiau bydd yn glir iawn bod honiad yn effeithio ar hawliau unigolyn dan Erthygl 2 – er enghraifft, pan fydd unigolyn yn marw yn y ddalfa gan yr heddlu. Mewn achosion eraill gall fod yn llai amlwg os yw Erthygl 2 yn weithredol – er enghraifft, pan honnir fod yr heddlu'n ymwybodol o fygythiad i fywyd rhywun a heb gymryd camau priodol i ddiogelu'r bywyd hwnnw.




- Cefnogi gwaith y Swyddfa Gartref gyda rhanddeiliaid eraill ar draws y system gwynion – e.e. Y Prif Grwner a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) – i ymdrin ag oedi yn well, yn arbennig mewn achosion sy'n cynnwys marwolaethau neu anafiadau difrifol.
- Gorffen cyflwyno ein rhwydweithiau pynciol[3] mewn meysydd allweddol i wella ansawdd ein gwaith ymhellach.
- Diffinio safonau ansawdd ar gyfer ein holl waith, ar sail adborth yr ydym wedi ei gasglu o brofiadau ein defnyddwyr gwasanaeth.
- Parhau i wella ein Llawlyfr Gweithrediadau ymhellach fel ei fod yn adlewyrchu ein safonau ansawdd ac yn rhoi arweiniad i staff gweithredol am ein harferion gorau.

## Goruchwylio system gwynion yr heddlu

- Dal lluoedd heddlu i gyfrif am y modd y maent yn ymdrin â chwynion, gan roi cyswllt a enwyd i bob llu heddlu a chorff plismona lleol i drafod ac adolygu perfformiad.
- Cynhyrchu cyfarwyddyd ymarferol, fel ein cyhoeddiad Focus, a rhannu arfer da trwy ein bwletin goruchwylio cyson i gefnogi lluoedd heddlu wrth iddynt weithredu ein Cyfarwyddyd Statudol[4] a gwella safonau.
- Cyflawni camau i hyrwyddo mynediad a symleiddio system gwynion a disgyblu'r heddlu a rhoi cyfarwyddyd i ymarferwyr.
- Cyhoeddi ystadegau cwynion yr heddlu ar gyfer Cymru a Lloegr a data perfformiad chwarterol ar gyfer yr holl luoedd heddlu yng Nghymru a Lloegr.

3 Yn 2018 fe wnaethom dreialu rhwydweithiau testunol – rhwydweithiau i arbenigwyr o bob rhan o'n sefydliad ag arbenigedd technegol, testunol – i roi cyngor a chyfarwyddyd i gael dylanwad cadarnhaol ar ein gwaith gweithredol mewn meysydd thematig allweddol.

4 Mae ein Cyfarwyddyd Statudol yn nodi cyfarwyddyd technegol i luoedd heddlu a sefydliadau eraill sy'n cael eu cynnwys yn system gwynion yr heddlu i'w helpu i gydymffurfio â'u hymrwymiadau cyfreithiol a chyflawni safonau uchel wrth ymdrin â chwynion.

## Rheoli gwybodaeth

> Datblygu strategaeth rheoli gwybodaeth newydd, i adlewyrchu'r gwerth yr ydym yn ei roi ar wybodaeth fel ased a sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn:

- gwella ein systemau a phrosesau ar gyfer datgelu gwybodaeth i gefnogi camau disgyblu, y crwner a throseddol
- adnewyddu ein dulliau storio data a pharhau i ddatblygu system reoli achosion newydd
- ehangu ein defnydd o wylio'r gorwel a chudd-wybodaeth, ar lefel leol a chenedlaethol

# SUT Y BYDDWN YN MESUR EIN CYNNYDD

## Byddwn yn anelu at:

> gwblhau 80% o ymchwiliadau cyn pen 12 mis

> benderfynu ar 80% o achosion a atgyfeirir atom ni cyn pen 3 diwrnod

> adolygu 75% o achosion marwolaeth neu anaf difrifol yr ymchwilir iddynt yn lleol cyn pen 30 diwrnod

> benderfynu ar 65% o apeliadau yn erbyn ymchwiliad llu heddlu neu ddatrysiad lleol ar gŵyn cyn pen 35 diwrnod

> benderfynu ar 80% o apeliadau yn erbyn penderfyniad llu heddlu i beidio â chofnodi cwyn cyn pen 25 diwrnod

## Byddwn yn monitro ac yn ymateb i:

> y gyfran o apeliadau a gadarnhawyd yr ydym yn eu cadarnhau pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn anfodlon â sut mae lluoedd heddlu wedi ymdrin â'u cwyn

> y gyfran o randdeiliaid plismona sy'n credu bod yr IOPC yn cael effaith ar wella'r ffordd y mae'r heddlu yn ymdrin â chwynion.



# BLAENORIAETH

## Gwella plismona trwy ddynodi a rhannu gwersi a ddysgwyd trwy ein gwaith

### YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD

Byddwn yn canolbwyntio ein gwaith ar feysydd sy'n peri pryder i'r cyhoedd a'r heddlu ac yn gweithio gyda phartneriaid i rannu'r gwersi a ddysgwyd i wella plismona a diogelu'r cyhoedd rhag niwed.

### YR HYN YR YDYM YN GOBEITHIO EI GYFLAWNI

Ein hargymhellion yn arwain at welliannau mewn plismona ac yn atal niwed i'r cyhoedd.



# Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan

- Fyddwn yn gweithio yn glos gydag amrywiaeth o randdeiliaid yn naturiol tu mewn i blismona a thu allan iddo i ddynodi themâu a dynodi'r gwersi i'w dysgu trwy'n gwaith.

- Fydd ein hargymhellion dysgu yn cael eu derbyn a gallwn ddangos eu heffaith ar blismona gweithredol.

- Fydd rhanddeiliaid yn hyderus bod ein gwaith yn hyrwyddo dysgu a gwella.

- Fyddwn yn gallu dangos bod ein gwaith wedi cefnogi ein partneriaid (er enghraifft, Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS), y Coleg Plismona, Cyngor Prif Swyddogion yr Heddlu Cenedlaethol (NPCC)) trwy ddylanwadu ar eu gwaith i wella plismona gweithredol.

# YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD YN 2019/20

## Casglu'r gwersi

> Ail-ddylunio ein dull o ymdrin ag ymchwiliadau ac apeliadau i sicrhau ein bod yn dysgu cymaint ag sy'n bosibl oddi wrthynt.

> Cynnal ymchwil i ddigwyddiadau a fu bron â digwydd yn y ddalfa gan yr heddlu i ddynodi arfer da a all atal niwed i'r cyhoedd.

> Cyhoeddi ystadegau ar farwolaethau yn ystod neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu yng Nghymru a Lloegr gan roi cyfle i ystyried tueddiadau a'r hyn a ddysgwyd trwy'r digwyddiadau hyn.

## Blaenoriaethu'r gwersi a ddysgwyd

> Adolygu ac ail-ddylunio ein dull o wneud argymhellion o ran gwersi i'w dysgu, i sicrhau eu bod yn effeithiol, wedi eu targedu ac yn amserol.

## Gweithredu'r gwersi a ddysgwyd

> Gweithio yn glos gyda rhanddeiliaid gan gynnwys HMICFRS, y Coleg Plismona, yr NPCC a'r Swyddfa Gartref i sicrhau bod y pwyslais wedi ei adnewyddu sydd gennym ar wersi a ddysgwyd yn gyrru gwelliannau mewn plismona.

> Cynyddu arbenigedd trwy ein rhwydweithiau testunol i sicrhau ein bod yn deall y cyd-destun y mae'r heddlu yn gweithio ynddo ac yn cynnal hygrededd ac awdurdod ein hargymhellion dysgu.

## Rhannu'r gwersi a ddysgwyd

> Cyhoeddi adroddiad yn flynyddol i ddangos y gwahaniaeth y mae'n gwaith wedi ei wneud trwy wella plismona a system gwynion yr heddlu.

> Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo Cylchgronau Dysgu'r Gwersi fel adnodd gwerthfawr ar gyfer swyddogion heddlu rheng flaen a staff yr heddlu.

> Gwaith gyda'n rhanddeiliaid i hyrwyddo rhannu'r gwersi a ddysgwyd ac arfer gorau trwy:

- weithio gyda Chymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu unigol am faterion cenedlaethol a lleol
- defnyddio'r hyn a ddysgir o'n gwaith i ddylanwadu ar hyfforddiant yr heddlu
- cysoni ein gwaith yn fwy agos at arolygiadau HMICFRS
- gwella cysylltiadau gyda sefydliadau academaidd
- gweithio'n fwy clos â Chrwneriaid i sicrhau ein bod yn cysoni ein gwaith ag argymhellion i wasanaeth yr heddlu[5]

> Datblygu cynigion ar gyfer llwyfan sengl yn galluogi ymarferwyr i gael mynediad rhwydd at ddysgu perthnasol ac arfer da.

5 Mae paragraff 7, Atodlen 5 Deddf y Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 yn rhoi dyletswydd ar grwneriaid i roi adroddiad i unigolyn, sefydliad, awdurdod lleol neu adran o'r llywodraeth neu asiantaeth pan fydd y crwner yn credu y dylid gweithredu i atal marwolaethau yn y dyfodol.



## SUT Y BYDDWN YN MESUR EIN CYNNYDD

### Byddwn yn anelu at:

> gyhoeddi adroddiad effaith blynyddol yn rhoi tystiolaeth o'r gwahaniaeth yr ydym wedi ei wneud wrth wella plismona a system gwynion yr heddlu

> cynyddu i 95% y gyfran o randdeiliaid sy'n cytuno bod ein cylchgrawn Dysgu'r Gwersi yn offeryn defnyddiol i yrru newid ym mholisi'r heddlu


### Byddwn yn monitro ac yn ymateb i:

> y gyfran o argymhellion dysgu a dderbynnir gan luoedd heddlu

> y gyfran o randdeiliaid sy'n meddwl bod yr IOPC yn effeithiol wrth godi safonau mewn lluoedd heddlu

> y gyfran o randdeiliaid sy'n meddwl bod yr IOPC yn effeithiol wrth sicrhau bod lluoedd heddlu yn dysgu oddi wrth gwynion

# BLAENORIAETH




## Gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu

### YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD

Byddwn yn ymwneud ag amrywiaeth o randdeiliaid a chymunedau, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd â'r lleiaf o hyder mewn plismona, fel eu bod yn deall eu hawl i gwyno ac yn disgwyl triniaeth deg a chyfiawn wrth ymateb i gwynion a digwyddiadau difrifol.

### YR HYN YR YDYM YN GOBEITHIO EI GYFLAWNI

Y rhai sy'n brin o hyder mewn plismona yn defnyddio ac yn gwerthfawrogi'r system gwynion.

# Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan fydd

- Y cyhoedd â hyder yn y system gwynion ac yn barod i gwyno.

- Pobl ifanc a'r rhai o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) â hyder yn y system ac yn barod i gwyno.

- Demograffeg y rhai sy'n cwyno yn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gan yr heddlu.

## YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD YN 2019/20

### Gwella mynediad a hyder

> Datblygu ein dull o oruchwylio sut y mae lluoedd heddlu yn ymdrin â chwynion, yn neilltuol y rhai sy'n cael yr effaith fwyaf ar hyder y cyhoedd ac yn cyflawni ystod ehangach o ymyraethau i wella'r modd yr ymdrinnir â chwynion.

> Cynyddu'r graddau y mae data yn hygyrch ar ein gwefan gan gynnwys gwybodaeth am ein perfformiad ni ein hunain a deilliannau o system gwynion yr heddlu.

> Gweithio mewn partneriaeth gyda'n Panel Ieuenctid[6] i weithredu ei argymhellion yn dilyn ymgysylltiad â dros 800 o bobl ifanc. Bydd hyn yn ein helpu i ymdrin â meysydd sy'n creu pryder y cyfeiriwyd atynt gan bobl ifanc ac yn gwella eu hyder yn system gwynion yr heddlu.

> Parhau i ddatblygu cysylltiadau gyda sefydliadau a all weithredu fel eiriolwyr gyda grwpiau rhanddeiliaid prin o hyder ac na chlywir yn aml i godi ymwybyddiaeth o system gwynion yr heddlu a'r hyder ynddi.

> Darparu gwybodaeth hygyrch ac wedi ei theilwrio fel bod ganddynt adnoddau addas i hyrwyddo dealltwriaeth a hyder yn system gwynion yr heddlu.

> Datblygu cynigion am wasanaeth eiriolaeth, yn annibynnol oddi wrthym ni a'r heddlu i roi cefnogaeth a chyngor i'r rhai a all ei gweld yn anodd defnyddio a theithio trwy system gwynion yr heddlu.




### Gweithio yn lleol a chenedlaethol

> Adnewyddu ein strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithredu cynlluniau ymgysylltu cymunedol i'r diben ar gyfer ein rhanbarthau a Chymru. Bydd y cynlluniau yma yn canolbwyntio ar ymgysylltu cyson ac wedi ei deilwrio â'n cymunedau lleol amrywiol i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith a chynnig cyfleoedd iddynt gael dylanwad ar yr hyn yr ydym yn ei wneud.

> Rhoi cyfle i'n pobl dreulio amser yn gwirfoddoli yn eu hardal leol, i'n helpu i ddeall pryderon lleol yn well a chynyddu hyder yn ein gwaith.

> Cyflawni strategaeth gyfathrebu newydd sy'n defnyddio amrywiaeth o sianeli i adlewyrchu'r cynulleidfaoedd amrywiol yr ydym yn cyfathrebu â nhw ac sy'n canolbwyntio ar effaith gadarnhaol y system gwynion wrth wella plismona.

6 Yn 2018 fe wnaethom gomisiynu Leaders Unlocked i greu ein Panel Ieuenctid, sy'n ein helpu i ymgysylltu â phobl ifanc.




> Deall yn well eto y safbwyntiau gwahanol am ein gwaith, tra byddwn yn cynnal Grŵp Cyfeirio â Rhanddeiliaid Allanol a Fforwm Rhanddeiliaid Cymru - yn cynrychioli rhanddeiliaid o bob rhan o'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, plismona a'r sector cyhoeddus.

## Pwyslais ar ddefnyddwyr gwasanaeth

> Gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth a chasglu eu hadborth i'n helpu i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar eu hyder ynom ni yn well. Byddwn yn defnyddio eu hadborth i:

- ail-ddylunio ein canolfan gyswllt cwsmeriaid i sicrhau ei bod yn hygyrch ac yn bodloni anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth
- adnewyddu'r llenyddiaeth a'r wybodaeth yr ydym yn eu cynhyrchu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau eu bod yn parhau yn hygyrch
- gwella ein prosesau ar gyfer ymateb i gwynion am ein gwasanaeth

> Ymwreiddio ein Safonau Gwasanaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar a rhoi adroddiad ar ein perfformiad mewn cymhariaeth â hwy. Mae ein Safonau yn gosod y lefel o wasanaeth yr ydym wedi ymrwymo i'w ddarparu i'r rhai sy'n ymwneud â'n gwaith.

> Cael achrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid® i ddangos eto ein hymrwymiad i wella ansawdd y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu.[7]

> Ail-ddylunio ein gwasanaeth cyswllt teulu a chefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth bregus i sicrhau ein bod yn bodloni eu hanghenion.

7 I gyflawni'r achrediad hwn bydd angen i ni ddangos pwyslais ar y defnyddiwr gwasanaeth mewn pum agwedd ar ein gwaith: dealltwriaeth o gwsmeriaid, diwylliant sefydliadol, gwybodaeth a hygyrchedd, cyflawni a phrydlondeb ac ansawdd.




## SUT Y BYDDWN YN MESUR EIN CYNNYDD

### Byddwn yn anelu at:

> wella perfformiad ar y dulliau mesur allweddol canlynol yn ein holrheiniwr canfyddiad y cyhoedd[8]:

- y gyfran o bobl ifanc sy'n hyderus bod yr heddlu yn ymdrin â chwynion yn deg
- y gyfran o'r cyhoedd o gefndir BME sy'n ymwybodol ohonom

### Byddwn yn monitro ac yn ymateb i:

> y gyfran o randdeiliaid sy'n meddwl ein bod yn gwella hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu

> y gyfran o gwynion a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd o gefndir BME

> y gyfran o gwynion a dderbyniwyd gan bobl ifanc

8 Mae ein holrheiniwr canfyddiad y cyhoedd yn arolwg cyson o farn y cyhoedd am yr heddlu, system gwynion yr heddlu a gwaith yr IOPC.


IOPC
IOPC

# BLAENORIAETH



## Bod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon

### YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD

Byddwn yn denu a chadw gweithlu amrywiol a medrus ac yn rhoi amgylchedd gwaith da iddynt gan wella yn barhaus i gynnig gwerth am arian.

### YR HYN YR YDYM YN GOBEITHIO EI GYFLAWNI

Ein gweithlu medrus iawn, amrywiol yn cyflawni gwasanaeth rhagorol, sy'n cynnig gwerth am arian.

# Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan fydd

Amrywiaeth ein pobl yn well ar bob lefel a'n gweithlu yn adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Ein pobl wedi eu hysgogi, eu hymgysylltu ac yn falch o weithio i'r IOPC.

Yn cyflawni effeithlonrwydd ariannol ac yn gwneud arbedion i leihau ein costau am bob uned, sy'n cael eu meincnodi mewn cymhariaeth â sefydliadau tebyg.

## YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD YN 2019/20

### Denu a chadw talent

> Er mwyn i'n pobl adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn well, byddwn yn diwygio ein polisi recriwtio, gan sicrhau bod ffocws ar ddenu a recriwtio cydweithwyr o gymunedau amrywiol.

> Creu a gweithredu strategaeth reoli talent newydd, i helpu i gefnogi ein holl bobl i ddatblygu a dangos cynnydd.

### Datblygu a chefnogi ein pobl

> Adolygu sut yr ydym yn darparu dysgu a datblygu i alluogi ein pobl i gymryd rheolaeth ar eu datblygiad personol a phroffesiynol a sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gyfredol y mae arnynt eu hangen i wneud y gwaith.

> Defnyddio canlyniadau ein harolwg llesiant cyntaf i ddatblygu a gweithredu strategaeth iechyd a llesiant. Bydd hyn yn cynnwys cyflawni ein rhaglen gefnogi cymheiriaid STREAM[9] i gynnig gwytnwch a chefnogaeth mewn trawma, a darparu gwasanaeth iechyd galwedigaethol gwell.

> Adnewyddu ein system arfarnu i ddarparu adborth effeithiol i'n pobl am eu perfformiad.

> Ymgysylltu â chydweithwyr ar bob lefel, i ymwreiddio ein gwerthoedd yn ein gwaith a sicrhau eu bod yn gallu codi problemau a phryderon a chyfleu syniadau yn rhwydd.

### Arloesi a gwella

> Hyfforddi pobl yn hwyluswyr blaengaredd a gwelliant i gefnogi cydweithwyr ar draws y busnes i wneud newidiadau a gwelliannau i'n prosesau.

> Datblygu a gweithredu strategaeth cyfathrebu mewnol newydd, yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein pobl yn cael y wybodaeth y mae arnynt ei hangen mewn ffordd ac ar ffurf sy'n addas iddynt.

> Datblygu cynllun effeithlonrwydd strategol, cynllun gweithlu a strategaeth fuddsoddi i sicrhau ein bod yn gallu parhau i gyflawni gwerth am arian a byw o fewn ein modd.

> Cwblhau cyflwyno ein offer TGCh symudol newydd er mwyn galluogi ein pobl i weithio yn hyblyg a hyrwyddo effeithlonrwydd a phrydlondeb yn ein gwaith.

> Parhau i wahanu ein gwasanaethau TGCh o un prif gyflenwr i greu llwyfan sefydlog ond hyblyg ar gyfer comisiynu ein gofynion TGCH yn y dyfodol.

> Cynllunio a gweithredu newidiadau i'n strategaeth stadau gan gynnwys adnewyddu ein gofod swyddfa i hyrwyddo gweithio hyblyg, doethach.

9 STREAM ywr byrfodd am Fodel Cymorth i Weithwyr gyda Straen, Trawma a Gwytnwch a hwn yw model cefnogi cymheiriaid i'r diben yr IOPC i gynnal gwytnwch yn y gwaith a rheoli risg trawma.



## SUT Y BYDDWN YN MESUR EIN CYNNYDD

### Byddwn yn anelu at:

- gynyddu sgôr ymgysylltiad staff i 63% (fel y mae'n cael ei fesur gan ein harolwg staff blynyddol)[10]
- sicrhau bod 70% o'n hymchwiliadau yn cael achrediad cyn pen 24 mis
- cynnal trosiant staff ar rhwng 8 a 10%
- peidio â mynd dros lefel absenoldeb salwch staff o 3%

### Byddwn yn monitro ac yn ymateb i:

- y gyfran o'n pobl, gan gynnwys rheolwyr ac arweinwyr, o gefndir BME
- y gyfran o ymgeiswyr o gefndir BME sy'n cael eu rhoi ar restr fer i gael cyfweliad

10 Mae ymgysylltu â gweithwyr yn ddull o fesur syniadau, disgwyliadau a diwylliant sefydliadol. Defnyddir pum cwestiwn i gynhyrchu sgôr ymgysylltu i'n pobl sy'n casglu gwybodaeth am ymgysylltu trwy ofyn sut y maent yn sôn am eu sefydliad, a oes ganddynt gysylltiad emosiynol â'u sefydliad, ac a yw eu sefydliad yn eu hysbrydoli. Cysylltir mwy o ymgysylltu gan weithwyr â pherfformiad sefydliadol gwell, llai o salwch a mwy o hapusrwydd.

# Ein cyllid a’n risgiau

## Ein cyllid

Rydym yn cael ein hariannu gan y Swyddfa Gartref trwy gymorth grant. Yn ogystal â hyn rydym yn derbyn cyllid o’r Swyddfa Gartref i ddwyn ein hymchwiliad annibynnol i ben yn dilyn y cwestau Hillsborough.

Yn 2019/20, bydd yr IOPC yn derbyn cyllid refeniw o £64.145m (£63.11m ar gyfer 2018/19) yn ogystal â £6.5m i ariannu ymchwiliad Hillsborough. Neilltuir cyllidebau i gyflawni’r blaenoriaethau a ddynodwyd yn ein cynllun busnes. Mae’r tabl isod yn rhoi manylion ein cyllideb ar gyfer 2019/20 yn ôl Cyfarwyddiaeth.

**Ffigwr 2** – cyllid IOPC 2019/20

| Cyfarwyddiaeth<br>*Yr holl ffigyrau mewn £m* | Creiddiol | Hillsborough | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Grŵp Swyddfa Breifat | 1.160 | - | 1.160 |
| Gweithrediadau | 27.276 | 5.318 | 32.594 |
| Cyfreithiol | 2.944 | 0.112 | 3.056 |
| Gwasanaethau Corfforae-thol | 18.732 | 0.840 | 19.572 |
| Strategaeth ac Effaith | 8.915 | 0.049 | 8.965 |
| Pobl | 5.118 | 0.181 | 5.299 |
| **Cyfanswm** | **64.145** | **6.500** | **70.645** |



# Ein risgiau

Er mwyn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni ein gwaith rydym yn defnyddio fframwaith rheoli risg a oruchwylir gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Trwy amrywiaeth o weithgareddau, rydym yn defnyddio'r fframwaith i ddynodi, asesu a rheoli risgiau sy'n dod i'r amlwg ac yn newid trwy gydol y flwyddyn. Nodir rhai o'r prif risgiau i'r hyn a gyflawnir gennym isod.

## Adnoddau

Dyma'r flwyddyn lawn gyntaf o gyflawni ein Cynllun Strategol 2018-22. Mae ansicrwydd am gyllid dros y blynyddoedd nesaf yn creu risg a bydd raid i ni feddwl yn ofalus am y blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd i sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad gorau posibl i gyflawni ein blaenoriaethau. Er mwyn cynorthwyo hyn, rydym yn gweithio i ddatblygu cynllun effeithlonrwydd strategol, cynllun gweithlu strategol a strategaeth fuddsoddi, i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i fod yn effeithlon, sicrhau bod ein gweithlu yn gallu cefnogi ein huchelgais, a deall ble gall buddsoddiad greu mwy o effeithlonrwydd yn y dyfodol.

## Rheoli gwybodaeth

Byddwn yn parhau yn effro i unrhyw ofynion rheoli gwybodaeth ychwanegol sy'n deillio o ganlyniad i ymadawiad arfaethedig y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd a byddwn yn ailasesu'r cynllun hwn yng ngoleuni unrhyw ofynion ychwanegol ar ein hadnoddau.

## Newid deddfwriaethol

Mae'r Ddeddf Plismona a Throseddu 2017 yn nodi newidiadau a fwriadwyd i symleiddio a gwella system gwynion yr heddlu. Mae llawer o'r newidiadau hynny yn aros i ddeddfwriaeth eilaidd ddod â nhw i rym. Rydym yn aros am wybodaeth am ddyddiad cyflwyno'r rheoliadau hyn a byddwn wedyn yn dyrannu adnoddau i reoli'r gweithredu. Mae'r ansicrwydd am amserlen y gweithredu yn golygu y gall rhoi adnoddau i'r gwaith hwn effeithio ar gyflawni elfennau eraill o'r cynllun hwn.

# Rhagor o wybodaeth

**Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am y cynllun hwn ar ffurf wahanol, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:**


www.policeconduct.gov.uk

Dilynwch ni ar Twitter: @policeconduct

Anfonwch e-bost atom yn: enquiries@policeconduct.gov.uk

Ffoniwch ni ar: 0300 020 0096

Cyfnewid testun: 18001 0207 166 3000

Ysgrifennwch atom yn:

IOPC
10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU


**Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg**


Ebrill 2019